**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AM 10AM AR 19 HYDREF 2022 YN NHŶ HASTINGS A THRWY MS TEAMS**

**Yn bresennol:** Mrs Bev Smith (Cadeirydd); Mr Michael Imperato; Mr Frank Cuthbert; Mrs Dianne Bevan.

**Swyddogion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (CFfDLC) a oedd yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr David Burley (Pennaeth Busnes); Miss Carys Vaughan (Swyddog Arolygon).

**Amser Dechrau: 10:03**
**Amser Gorffen: 12:00**

## 1. Datganiadau Buddiannau

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau Buddiannau.

## 2. Gwybodaeth gan y Cadeirydd

2.1. Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad i'r Comisiwn ar gyhoeddi'r Papur Gwyn:

- Mae'r Papur Gwyn ar weinyddu a diwygio etholiadol wedi cael ei gyhoeddi. Mae'r cyfnod ymgynghori 3 mis wedi dechrau, ac mae'n rhaid cyflwyno ymateb ffurfiol erbyn 10 Ionawr 2023.
- Cyn iddo gael ei gyhoeddi, cyfarfu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr â'r Gweinidog a Chadeirydd y Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Annibynnol (IRP) i drafod y newidiadau arfaethedig i gylch gwaith y Comisiwn.
- Mae'r Papur Gwyn hefyd yn cynnwys nifer o gynigion a amlygwyd yn flaenorol yn ymarfer Gwersi a Ddysgwyd y Comisiwn.
- Bydd y Comisiwn yn ceisio sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y bydd angen darparu adnoddau digonol ar gyfer ehangu pwerau'r Comisiwn.
- Mae trafodaethau'n parhau gyda LIC a Chadeirydd yr IRP i ystyried sefydlu Bwrdd Prosiect i gefnogi'r newidiadau arfaethedig.
- Rhyddhaodd y Comisiwn ddatganiad i'r wasg i ymateb i gyhoeddi'r Papur Gwyn.
- Bydd cyfarfod yn cael ei gynnal ddydd Gwener 21 Hydref gyda Chadeirydd yr IRP, Lisa James, Elaine, y Prif Weithredwr, a'r Cadeirydd i ystyried cyllid a threfniadau pontio. Trafodir yr angen i'r

Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) gael Cadeirydd annibynnol hefyd.
- Cyfarfu'r IRP ddoe i drafod y Papur Gwyn a bydd yn rhannu ei ymateb i'r ymgynghoriad gyda'r Comisiwn. Bydd y Comisiwn yn rhannu ei ymateb gyda'r IRP pan fydd wedi'i lunio.

2.2. Rhoddodd y Cadeirydd wybodaeth i'r Comisiwn am y cyfarfod cynharach gyda Lisa James o Is-adran Noddi'r Comisiwn yn Llywodraeth Cymru (LlC):

- Rhoddodd Lisa James adborth cadarnhaol o'r cyfarfod rhwng y Gweinidog, y Comisiwn a'r IRP.
- Atgyfnerthodd y Cadeirydd bwysigrwydd strategaeth a chyllideb, a **chytunodd** Lisa i roi eglurder ariannol ynglŷn â'r gyllideb yn gynnar ym mis Rhagfyr.
- Bydd digwyddiad ymgysylltu ynglŷn â'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn cael ei gynnal ar ddiwedd mis Tachwedd/ yn gynnar ym mis Rhagfyr. Awgrymodd y Cadeirydd fod digwyddiad yn cael ei gynnal i ganolbwyntio'n benodol ar fanylion technegol y Papur Gwyn.
- Mae papur LlC ar Amrywiaeth a Democratiaeth wedi cael ei gyhoeddi. Bydd cyflwyniad a thrafodaeth bord gron gan y Gweinidog yn digwydd ar 15 Rhagfyr.
- Trafodwyd cyfnodau'r Comisiynwyr yn eu swyddi. Mynegodd y Cadeirydd bryderon y bydd yr holl Gomisiynwyr presennol yn gorffen yn eu swyddi tua'r un adeg ac yn ystod Arolwg y Senedd. **Cytunwyd**, ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol, y bydd y Comisiwn yn gofyn am drefniadau pontio er mwyn i Gomisiynwyr ymestyn eu tymor i sicrhau sefydlogrwydd yn ystod cyfnod allweddol 2025. Mae Lisa James wedi **cytuno** i archwilio hyn ac wedi gofyn i'r Comisiwn sicrhau bod swydd-ddisgrifiad y Comisiynydd yn rhestru'r gofynion cywir.
- Bydd y Comisiwn yn symud ymlaen i recriwtio'r pumed Comisiynydd. Awgrymwyd y gallai'r pumed Comisiynydd gael ei recriwtio i fwrdd yr IRP hefyd.
- **Cytunodd** Lisa James i gadarnhau canlyniad yr ailstrwythuro yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf.
- Llongyfarchodd y Cadeirydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru (CFfG) ar gyhoeddi'r cynigion diwygiedig a dymunodd y gorau iddo am y cyfnod ymgynghori.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 15 Medi 2022

**3.1.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Medi 2022 yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

## 4. Materion yn Codi

**4.1.** **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad gan nodi unrhyw faterion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a rhoddwyd diweddariad ar gynnydd y materion canlynol:

**4.2.** **(Mater 2) –** Bydd y Comisiwn yn cynnal yr Arolwg Cymunedol o Fro Morgannwg. Bydd y Prif Weithredwr yn cyfarfod â Chaerffili a Sir Benfro yr wythnos nesaf i drafod Arolygon Cymunedol. Mae'r Comisiwn wedi cytuno i gynnal yr Arolwg Cymunedol o Gaerdydd ac mae cyfarfod gyda Lisa James wedi'i drefnu ar gyfer yr wythnos nesaf i drafod amserlenni. **Cytunwyd** mai Frank Cuthbert fydd y Comisiynydd Arweiniol ar gyfer Arolwg Cymunedol Sir Benfro, Dianne Bevan ar gyfer Bro Morgannwg a Michael Imperato ar gyfer Caerffili.

**4.3.** **Nodwyd** bod y Comisiwn yn cynnal trafodaethau ar hyn o bryd gyda'r Is-adran Noddi ynglŷn â chyllid ar gyfer staff ychwanegol.

**4.4.** Fel y crybwyllwyd yn flaenorol, **cytunwyd** y bydd y Prif Weithredwr yn trefnu gweithdy ar Arolygon Cymunedol ar gyfer Comisiynwyr yn gynnar y flwyddyn nesaf.

**4.5.** Mynychodd y Prif Weithredwr gyfarfod ddydd Gwener diwethaf ar Ddiwygio'r Senedd. Y prif eitemau a drafodwyd oedd awtomatigrwydd ac enwi a sut i ymgorffori'r rhain mewn deddfwriaeth. **Nodwyd** y bydd Bil Diwygio'r Senedd yn cael ei gyflwyno tua mis cyn y Bil Diwygio Etholiadol yn 2023.

**4.6.** **(Mater 7) –** Mae'r Comisiwn wedi edrych ar 8 eiddo posibl ac wedi cwtogi ei opsiynau i 2 safle. Trafodwyd costau a chymhellion, a **nodwyd** y byddai'r Asiantiaid yn darparu rhagor o wybodaeth am y 2 eiddo. Rhoddodd y Prif Weithredwr wybod i'r Comisiynwyr fod fideo ar gyfer pob eiddo ar gael i'w wylio a bod croeso iddynt fynd i edrych ar yr eiddo. Gofynnodd y Cadeirydd i ddogfen sy'n cymharu'r eiddo, gan gynnwys y sail resymegol dros benderfyniad y Comisiwn i symud i lety arall, gael ei llunio a'i thrafod yn y cyfarfod nesaf.

**4.7.** **Nodwyd** bod Lisa James wedi cyfrif am gynnydd mewn costau llety wrth lunio'r gyllideb.

**4.8.** **Gweithredu:** Y Prif Weithredwr i rannu fideos o'r 2 eiddo posibl gyda'r Comisiynwyr.

**4.9.** **Gweithredu:** Y Pennaeth Busnes i lunio dogfen sy'n cymharu'r 2 eiddo posibl, gan gynnwys y sail resymegol dros benderfyniad y Comisiwn i symud i lety arall, a'i rhannu gyda'r Comisiynwyr yn y cyfarfod nesaf.

## 5. Monitro'r Gyllideb

**5.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 19 Hydref 2022 gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** a **chymeradwywyd** y gyllideb hyd at ddiwedd mis Medi 2022.

**5.2.** **Nododd** a **chymeradwyodd** yr aelodau drosglwyddo £6,000 o Gostau Staff a Gyflogir yn Uniongyrchol i Gyfreithiol i fynd i'r afael â gorwariant amcangyfrifedig.

**5.3.** **Nodwyd** mai tanwariant cyfredol y Comisiwn ar gyfer gwariant arian parod yw £49,651. Y prif faes tanwariant yw Costau Staff a Gyflogir yn Uniongyrchol o ganlyniad i recriwtio staff ychwanegol yn hwyrach na'r bwriad a'r oedi cyn i Lywodraeth Cymru gytuno ar y strwythur staff newydd.

**5.4.** **Nodwyd** bod posibilrwydd cryf y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi dyfarniad cyflog staff yn ddiweddarach yn y flwyddyn a fyddai'n cael ei ôl-ddyddio i fis Ebrill 2022, petai'n cael ei wireddu, ac yn defnyddio rhywfaint o'r tanwariant cyfredol.

**5.5.** **Nodwyd** bod y Comisiwn wedi cael yr ad-daliad gan LlC ar gyfer costau cyflog yr aelod o staff sydd ar secondiad ar hyn o bryd.

**5.6.** **Nodwyd** y gallai tanwariant y Comisiwn gael ei ddefnyddio ar gyfer recriwtio ac adnewyddu'r llety newydd.

**5.7.** **Nodwyd** y bydd y Comisiwn yn codi tâl ar Fro Morgannwg am gynnal ei arolwg cymunedol yn ystod blwyddyn ariannol 2023/ 24.

## 6. Rheoli Risg

**6.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 6 Hydref 2022 gan y Rheolwr Cyllid.

**6.2.** **Nodwyd** nad oedd unrhyw newidiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn y cyfarfod diwethaf.

**6.3.** **Cytunwyd** y dylai'r Comisiwn fod yn arloesol ac y dylai hysbysebu'n fwy penodol er mwyn recriwtio. Mae'r Prif Weithredwr wedi gofyn i'r Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu hysbysebu rolau swyddi'n eang ar draws gwahanol blatfformau. Mae'r Prif Weithredwr wedi siarad ag Ysgrifennydd y Comisiwn Ffiniau i Loegr ynglŷn â recriwtio aelodau staff i'r Comisiwn. Mae'r Prif Weithredwr wedi rhoi gwybod i'r Comisiwn Ffiniau i Loegr y gall dyddiadau

dechrau ar gyfer staff gael eu negodi a **chytunwyd** y byddai'n fuddiol recriwtio staff o'r Comisiwn Ffiniau i Loegr oherwydd y bydd gan recriwtiaid brofiad o gynnal arolygon. **Cytunwyd** gan fod 3 o'r 4 Comisiynydd wedi'u lleoli yng Nghaerdydd ar hyn o bryd ei bod yn amgenach i'r pumed Comisiynydd gael ei leoli mewn ardal arall o Gymru. **Cytunodd** y Comisiwn i feddwl am sut i dargedu recriwtiaid o rannau eraill o Gymru.

**6.4.** **Cytunwyd** i adolygu Cofrestr Risg y Flaenraglen Waith pan fydd y Comisiwn yn gwybod mwy am sefyllfa ei flaenraglen waith a gofynion y gyllideb. Yn dilyn hyn, byddai Cofrestr Risg y Flaenraglen Waith yn cael ei hystyried yng nghyfarfod nesaf yr ARAC.

**6.5.** **Gweithredu:** Y Rheolwr Cyllid i ychwanegu Cofrestr Risg y Flaenraglen Waith wedi'i hadolygu at yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf yr ARAC.

**7. Uned Cyrff Cyhoeddus LlC: Adnodd Defnyddiol i Asesu Risg (HART)**

**7.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 11 Hydref 2022 gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** tablau asesu risg drafft HART.

**7.2.** **Nodwyd** mai eitem annibynnol yw HART ac y bydd LlC yn ei ddefnyddio i gymharu sgorau risg ar draws Cyrff Cyhoeddus Cymru er mwyn asesu pa gyrff y mae arnynt angen y cymorth mwyaf i gyflawni blaenoriaethau gweinidogol a hefyd asesu'r gofynion ar gyfer adolygiadau wedi'u teilwra o bob un o Gyrff Cyhoeddus Cymru.

**7.3.** **Nodwyd** bod y ddau dabl Asesu Risg HART wedi cael eu llenwi gan y Rheolwr Cyllid a'u hadolygu gan y Prif Weithredwr. **Nodwyd** er bod mwyafrif y risgiau wedi dod o gofrestrau risg y Comisiwn, bod rhai o'r risgiau ar yr HART yn risgiau generig a grëwyd gan LlC ac nid oeddent wedi cael eu hystyried yn flaenorol ar gofrestrau risg y Comisiwn. **Cytunwyd** y byddai cofrestrau risg y Comisiwn yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn gynhwysfawr.

**7.4.** **Nodwyd** y byddai'r Is-adran Noddi yn cwblhau'r HART yn annibynnol hefyd ac y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn trafod ei drafft gyda nhw yn y cyfarfod cyswllt yn gynnar ym mis Rhagfyr. Mae'n rhaid i fersiwn derfynol yr HART gael ei chyflwyno i LlC i'w mabwysiadu erbyn diwedd mis Ionawr 2023.

**7.5.** **Nodwyd** y bydd yr ARAC yn ystyried ac yn cymeradwyo'r HART, hefyd. **Cytunwyd** y dylai'r ARAC ystyried a allai unrhyw risgiau ar yr HART gael eu hychwanegu at y Gofrestr Risg Gorfforaethol a Chofrestr Risg y Flaenraglen Waith.

**7.6.** **Gweithredu:** Y Rheolwr Cyllid i ychwanegu'r HART at yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf yr ARAC.

## 8. Trafodaeth ynglŷn â'r Papur Gwyn

**8.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 14 Hydref 2022 gan y Prif Weithredwr.

**8.2.** **Amlygodd** y Prif Weithredwr y cynigion yn y Papur Gwyn sy'n effeithio ar y Comisiwn. Trafododd y Comisiwn y sylwadau cychwynnol a luniwyd gan y Prif Weithredwr a chynigiodd sylwadau a mân newidiadau ychwanegol. Bydd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn llunio ymateb a fydd yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

**8.3.** **Cytunwyd** y dylai'r Comisiwn bwysleisio bod angen iddo gael adnoddau priodol i gwblhau'r holl waith yn y dyfodol.

**8.4.** **Gweithredu:** Y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd i ddiweddaru ymateb y Comisiwn i'r Papur Gwyn a'i gyflwyno i'r cyfarfod nesaf i'w drafod ymhellach.

## 9. Calendr Digwyddiadau

**9.1.** **Nododd** y Comisiwn y Calendr.

**9.2.** Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Comisiwn y bydd yn mynychu cyfarfod mis Tachwedd yn rhithwir.

**9.3.** Rhoddodd Frank Cuthbert wybod i'r Comisiwn y bydd yn gwneud Gwasanaeth Rheithgor o 5 Rhagfyr ymlaen ac felly efallai na fydd yn mynychu'r cyfarfod ar 14 Rhagfyr.

**9.4.** Cytunwyd ar y dyddiadau canlynol ar gyfer cyfarfodydd yn 2023: 18 Ionawr, 22 Chwefror, 22 Mawrth, 19 Ebrill, 24 Mai a 21 Mehefin.

**9.5.** Michael Imperato i gadarnhau pryd y bydd ar gael ar gyfer cyfarfod mis Gorffennaf.

**9.6.** **Gweithredu:** Michael Imperato i gadarnhau p'un a all fynychu cyfarfod y Comisiwn ar 19 neu 20 Gorffennaf.

**9.7.** **Gweithredu:** Y Swyddog Arolygon i anfon gwahoddiadau ar gyfer dyddiadau cyfarfodydd cytunedig.

## 10. Unrhyw Fater Arall Perthnasol

**10.1.** Mae Richard Wyn Jones wedi derbyn gwahoddiad y Comisiwn i fod yn siaradwr gwadd yn y cyfarfod Rhyng-Gomisiwn ym mis Tachwedd. Bydd sgwrs ynglŷn â deall lleoedd yng Nghymru, hefyd.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 16 Tachwedd 2022**